# Dogfen 'Disgwyliadau' Anghenion Dysgu Ychwanegol Castell-nedd Port Talbot

**Ionawr 2026**

***Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r disgwyliadau a roddir ar ysgolion a'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â chefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd, Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021***

## Cyflwyniad

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg Cymru (ADYTA) 2018 yn darparu deddfwriaeth newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY, ac mae Côd gorfodol yn cyd-fynd â hi. Nod yr ymagwedd newydd, fel a nodir yn y Côd, yw:

**'Cefnogi'r gwaith o greu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau.'**

Mae'r fframwaith statudol newydd yn seiliedig ar yr egwyddorion a'r nodau allweddol canlynol:

**Ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau** lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle mae'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau Gellir cyflawni hyn drwy weithredu Arfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (ACU).

**Adnabod ac ymyrryd yn gynnar, a chynllunio pontio effeithiol** lle mae anghenion yn cael eu hadnabod a darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Cydweithredu**, lle mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar, a bod cefnogaeth gydgysylltiedig briodol yn cael ei rhoi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a deilliannau cadarnhaol.

**Addysg gynhwysol** sy'n cefnogi cyfranogiad llawn mewn addysg brif ffrwd, lle bynnag y bo'n ymarferol, a dull lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY.

**System ddwyieithog** lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) yn Gymraeg.

## Beth yw diben yr arweiniad hwn?

Dan y system ADY newydd, mae dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol (ALl) i adolygu'r trefniadau a wneir gan ysgolion i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Diben hyn yw sicrhau bod y ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael yn ddigonol i ddiwallu'r angen. Felly, diben yr arweiniad hwn yw cefnogi ysgolion i ddeall:

- Yr hyn y disgwylir i Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot ei adolygu;
- Yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion prif ffrwd o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY yng Nghastell-nedd Port Talbot;
- Yr hyn y mae Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot yn ei gynnig o ran cefnogi ysgolion i gyflawni’u dyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth newydd.

## Disgwyliadau ar ALl Castell-nedd Port Talbot

Rhaid i Awdurdodau Lleol, wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlentyn o oedran ysgol gorfodol, y dylid ei addysgu mewn ysgol, sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir, sef ysgol a gynhelir nad yw'n ysgol arbennig neu'n Ganolfan Cymorth Dysgu (CCD). Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor y bydd addysg brif ffrwd er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r eithriadau i'r rhain yn gyfyngedig (Adran 51 o'r Ddeddf).

O ganlyniad, mae disgwyl i ALl Castell-nedd Port Talbot gael barn ynghylch i ba raddau y mae'r canlynol ar gael yn yr ysgolion a gynhelir yn ei ardal:

- addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel;
- ymyriadau a chymorth wedi'u targedu;
- systemau effeithiol i fonitro cynnydd a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc ag ADY ac i'w cynnwys ym mywyd pob dydd yr ysgol;

- trefniadau ar gyfer cynnwys yr ALl ac arbenigwyr gwasanaethau cymorth ehangach mewn achosion lle mae'n briodol gwneud hynny;
- trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddiwyd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY a sgiliau ac arbenigedd staff;
- trefniadau ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc a rhieni ar bob cam. (Adran 7.10 o'r Côd)

Er mwyn sefydlu darlun clir o allu ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, bydd y Gwasanaeth Cynhwysiad, mewn partneriaeth â Swyddogion Cymorth Addysg (SCAau), yn cydweithio ag ysgolion i adolygu a yw trefniadau lleol yn ddigonol i ddiwallu anghenion.

Mae Gwasanaeth Cynhwysiad ALl Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu Cynnig Cymorth Ymgynghorol sydd ar gael i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd, Canolfannau Cymorth Dysgu ac ysgolion arbennig (gweler atodiad 1). Cynigir rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i bob ysgol ar draws yr ALl (gweler atodiad 2). Efallai y bydd angen i ALl Castell-nedd Port Talbot hefyd adolygu ei fecanwaith ariannu presennol ar gyfer ysgolion mewn perthynas ag ADY.

## Disgwyliadau ar Ysgolion

Dylai pob ysgol ddisgwyl, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf ADYTA, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY a chadw at ei hegwyddor sylfaenol o addysg gynhwysol.

Mae addysg gynhwysol lwyddiannus yn gyfuniad o arweinyddiaeth effeithiol mewn ysgolion, gan ddarparu'r amodau lle gall amgylchedd cynhwysol ac arloesol ffynnu, ynghyd ag athrawon sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i greu ystafelloedd dosbarth cynhwysol. Mae rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn hanfodol er mwyn sicrhau datblygiad strategol arferion cynhwysol mewn ysgol ac mae'n chwarae rhan bwysig wrth gynghori ar y cymorth ehangach a ddarperir yn y lleoliad addysg a chyfrannu ato, yn ogystal â'r dysgu proffesiynol ar gyfer aelodau eraill o staff. Am y rheswm hwn, disgwylir i'r CADY fod yn dra chymwys a mynd ati i ymgymryd â hyfforddiant i gefnogi'i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ei hunan.

Mae addysgeg gynhwysol yn rhoi pwyslais ar y farn bod athrawon yn addysgu pob plentyn mewn amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol, gan sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu, ei feithrin a bod ganddo ymdeimlad o berthyn. Mae cyd-ddealltwriaeth y bydd plant yn datblygu ar gyfraddau gwahanol ac, o ganlyniad, ni ellir cael dull 'un maint sy'n addas i bawb' o addysgu. Mae hyn yn golygu bod gan bob plentyn, ni waeth beth yw ei rwystr i ddysgu, fynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu i lwyddo.


Mae cymorth i ddatblygu addysgeg gynhwysol ar gael i'r holl staff yng Nghastell-nedd Port Talbot drwy gyfleoedd cyngor ac ymgynghori rheolaidd gyda staff y Gwasanaeth Cynhwysiad a dewislen hyfforddiant y Gwasanaeth Cynhwysiad.   Darperir cyfleoedd ychwanegol gan bartneriaid ehangach hefyd, megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, yn ogystal â'r cynnig dysgu proffesiynol gan Lywodraeth Cymru a'r adnoddau hyfforddi rhanbarthol a gedwir yn Y Storfa ar lwyfan digidol Hwb. Bydd disgwyl i bob ymarferydd addysgu sy'n ymwneud ag addysgu a chefnogi dysgwyr ag ADY gael gafael ar y cymorth hwn ni waeth beth fo'i brofiad blaenorol, ei gymwysterau neu'r lleoliad addysg y mae'n gweithio ynddo. Fel yr amlinellir yn y Côd:

***Mae ymarferwyr addysgu yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain; yn ogystal, dylid adnabod gofynion dysgu proffesiynol yn rhan o broses gynllunio'r lleoliad addysg a phroffiliau dysgu proffesiynol ymarferwyr.***

I'r rhan fwyaf o blant, caiff eu hanghenion eu diwallu drwy'r ysgol, gan ddefnyddio **Darpariaeth Ddysgu Gynhwysol**. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd dysgu ac addysgu o ansawdd uchel, gwahaniaethu ac ymyriadau safonol wedi'u

targedu. Lle nodir ADY sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol, bydd CDU yn cael ei roi ar waith. Unwaith eto i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, bydd y CDU hwn yn cael ei gynnal gan yr ysgol.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd anghenion y plant yn ychwanegol at yr hyn y gellid disgwyl i'r ysgol ei ddarparu’n rhesymol, a bydd yr ALl yn mabwysiadu'r CDU (cyfeiriwch at Ddogfen 'Egwyddorion' Anghenion Dysgu Ychwanegol Castell-nedd Port Talbot).



## Pam mae angen gwella arfer cynhwysol mewn ysgolion?

Fel rhan o'r agenda ddiwygio ehangach, mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn newid ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi datganiad clir o'r hyn sy'n bwysig o ran darparu addysg eang a chytbwys i bob dysgwr. Mae'n nodi disgwyliadau ar gyfer ysgolion bod y cwricwlwm, sy'n seiliedig ar bedwar diben craidd, yn hygyrch i **bob** plentyn a pherson ifanc.

Mae unrhyw newid systemig cynaliadwy ar draws ysgol gyfan yn dibynnu ar greu cyd-ddealltwriaeth ac iaith a rennir o sut beth yw addysg gynhwysol mewn ysgolion.

Mae addysg gynhwysol lwyddiannus yn gyfuniad o arweinyddiaeth effeithiol mewn ysgolion sy'n darparu'r amodau fel y gall amgylchedd cynhwysol ac arloesol ffynnu, ynghyd ag athrawon sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i greu ystafelloedd dosbarth cynhwysol. Felly, lle synhwyrol i ddechrau yw sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn bodoli yn yr ysgol ar hyn o bryd. Bydd hyn yn helpu staff i gyflawni'u cyfrifoldeb proffesiynol i gynnwys pob dysgwr yn eu hystafelloedd dosbarth.

Mae tystiolaeth yn dangos bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn fwy agored i dangyflawni a chael eu heithrio. Mae'r disgyblion hyn mewn mwy o berygl o ymddieithrio ac eithrio cymdeithasol. Mae ganddynt anghenion mwy amrywiol ac efallai y bydd angen mwy o gymorth arnynt na'u grŵp cyfoedion. Bydd hyn yn golygu bod angen ffordd wahanol o weithio, gyda ffocws penodol ar ddysgu ac addysgu sy'n dylanwadu ar ystod ehangach o ganlyniadau gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol i blant a phobl ifanc.

**Dyletswyddau Statudol**

Yn ogystal â bod yn ddiben moesol i ysgolion, mae arferion cynhwysol yn cael eu cefnogi'n glir gan y gyfraith a dyletswyddau statudol cyfatebol Deddf Cydraddoldeb Cymru (2010), Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018) a Chôd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn mandadu ysgolion i wneud addasiadau rhesymol a chymryd camau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysg. Mae'n mynd y tu hwnt i'r addysg ffurfiol a ddarperir, gan gwmpasu holl weithgareddau'r ysgol fel gweithgareddau allgyrsiol a hamdden, clybiau ar ôl ysgol a gwaith cartref, gweithgareddau chwaraeon a theithiau ysgol, yn ogystal â chyfleusterau ysgol fel llyfrgelloedd a chyfleusterau TG.

Mae'r ddyletswydd addasiadau rhesymol yn un rhagweledol a pharhaus. Mae hyn yn golygu na ddylai ysgol aros nes bod ganddi ddysgwyr ag anhawster dysgu neu anabledd i wneud yr addasiadau angenrheidiol, a dylent gynllunio ymlaen llaw drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol gorfodol. Disgwylir i ysgolion gymryd camau i fynd i'r afael â'r anfantais benodol, anghenion gwahanol neu gyfranogiad isel grwpiau o ddisgyblion penodol, a elwir yn ddarpariaethau gweithredu cadarnhaol, a chyhoeddi'u bwriadau yn eu *Cynllun Hygyrchedd.* Argymhellir bod ysgolion yn ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid priodol, gan gynnwys arbenigwyr ALl a gweithwyr iechyd proffesiynol, i lunio hyn.

Mae'r Ddeddf ADYTA yn egluro bod yn rhaid i ysgolion sicrhau bod plant neu bobl ifanc ag ADY a nodwyd yn cael eu cynnwys ym mhob un o weithgareddau'r ysgol.  Er mwyn llwyddo i wneud hynny, mae'r Côd statudol cysylltiedig yn egluro bod ymagwedd ysgol gyfan at wella'n hanfodol a:

***Bod y system ADY yn dibynnu ar wybodaeth a phrofiad staff addysgu i nodi ffyrdd o ddarparu mynediad priodol at y cwricwlwm ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Dylai diwallu anghenion dysgwyr ag ADY fod yn rhan o ymagwedd ysgol gyfan neu sefydliad at wella ysgolion neu sefydliadau. Yr allwedd i hyn yw gwybodaeth y staff addysgu am sgiliau a galluoedd pob plentyn a pherson ifanc. O ganlyniad, ni ellir cadw gwelliannau o ran dysgu ac addysgu plant a phobl ifanc ag ADY ar wahân i welliannau dysgu ac addysgu plant a phobl ifanc ar draws ysgol... yn ei chyfanrwydd.***

## Darpariaeth Ddysgu Gynhwysol

Bydd disgwyl i bob ysgol ddatblygu’i Darpariaeth Ddysgu Gynhwysol, a fydd ar gael i bob disgybl, gan gynnwys y rheini ag ADY. Bydd hyn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer yr holl gefnogaeth neu ddarpariaeth arall mewn ysgolion, ac mae'n cynnwys:

*1) Dysgu, Addysgu a Gwahaniaethu Da.*

*2) Strategaethau addysgu wedi'u targedu i gefnogi pob maes angen.*

*3) Ymyriadau safonol wedi'u targedu.*

**Dysgu, Addysgu a Gwahaniaethu Da.**

Mae gwahaniaethu’n gonglfaen i Ddarpariaeth Ddysgu Gynhwysol o ddydd i ddydd. Mae gan wahaniaethu ystyr eang oherwydd mae'n cynnwys unrhyw ffordd y gwneir addasiadau i gynnwys, cyflwyniad, amgylchedd neu ddisgwyliadau dysgu ac addysgu. Gall amrywio o rywbeth sydd wedi'i gynllunio'n ofalus, er enghraifft gweithgaredd penodol, ond gall hefyd fod yn rhywbeth sy'n digwydd ar hyn o bryd, fel ymateb disgybl i addysgu. Gall gwahaniaethu ddigwydd ar sawl lefel; gall fod yn ddwys o ran adnoddau, er enghraifft, defnyddio Cynorthwy-ydd Addysgu i gefnogi disgybl penodol, neu gall fod yn isel ac yn rhad, megis aralleirio cwestiwn. Er hynny, mae athrawon

effeithiol yn sicrhau bod gwahaniaethu'n barhaus ac yn treiddio i bob agwedd ar y wers ac nad yw'n weithgaredd untro, megis defnyddio taflen waith bwrpasol neu ddeunyddiau penodol. Dylai gwahaniaethu fod yn rhan annatod o bob gwers.

Er mwyn sicrhau bod dysgu ac addysgu da yn digwydd a bod anghenion pob dysgwr yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu diwallu, mae hefyd yn hanfodol bod trefniadaeth yr amgylchedd dysgu ei hun yn cael ei hystyried a'i chynllunio'n ofalus. Er enghraifft:

- A yw'r cynllun eistedd yn ystyried defnyddio llaw dde/chwith, anghenion synhwyraidd neu gorfforol, cyfeillgarwch neu grwpiau cyfoedion?
- A yw'r amgylchedd yn rhydd o rwystrau ac a oes digon o le i'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion corfforol/symudedd a synhwyraidd?
- A all pob dysgwr gael gafael ar ddeunyddiau ac offer yn hawdd, gan ei alluogi i gymryd rhan lawn yn ei ddysgu? Gallai hyn gynnwys offer llaw chwith a dde; prennau mesur darllen; troshaenau lliw; cymhorthion cyfathrebu; systemau gwirio emosiynau disgyblion; teganau ffidlo; amseryddion gweledol; taflenni gwaith testun clir, wedi'u cyferbynnu'n dda; fersiynau pen desg o fanciau geiriau geirfa allweddol; a chymorth rhifedd h.y. cyfrifianellau, llinellau rhif etc...

**Strategaethau addysgu wedi'u targedu i gefnogi pob maes angen.**

Os oes dysgu ac addysgu da, efallai y bydd rhai disgyblion yn dechrau arddangos anghenion sy'n dod i'r amlwg neu fod ganddynt angen a nodwyd sy'n gofyn am strategaethau wedi'u targedu yn yr ystafell ddosbarth. Yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol yn aml fyddai addysgu sydd wedi'i dargedu at feysydd gwendid dysgwr.

Bydd disgwyl i staff weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r disgybl a'r rhieni i dreialu a gwerthuso pa strategaethau sy'n cefnogi'r disgybl orau. Bydd tystiolaeth effaith y strategaethau hyn a dargedir yn llywio prosesau cynllunio a phenderfynu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y dyfodol.

**Ymyriadau safonol wedi'u targedu.**

Lle ceir dysgu ac addysgu da, a lle rhoddir strategaethau wedi'u targedu ar waith, efallai y nodir bod angen ymyriadau safonol wedi'u targedu ar rai disgyblion hefyd. Ymyriadau yw'r rhain sydd ar gael yn gyffredinol i blant a phobl ifanc o'r un oedran ac sy'n helpu i nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg a/neu eu cefnogi i wneud cynnydd digonol. Mae'r rhain yn elfen sylfaenol o addysgu arferol o ansawdd uchel, a byddant yn cefnogi gwahanol anghenion sy'n dod i'r amlwg neu feysydd o anghenion a nodwyd, yn y meysydd canlynol:

- Gwybyddiaeth a Dysgu - efallai y bydd angen rhaglenni penodol ar rai plant a phobl ifanc sy'n dangos nodweddion anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys neu anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia neu dyspracsia, i helpu gyda chynnydd mewn gwybyddiaeth a dysgu. Efallai y bydd gan rai o'r plant a'r bobl ifanc hyn anawsterau synhwyraidd, corfforol ac ymddygiadol cysylltiedig.

- Cyfathrebu a Rhyngweithio - gallai rhai plant a phobl ifanc gael anhawster mewn un, rhai, neu bob agwedd ar leferydd, iaith a chyfathrebu. Gall y maes angen hwn gynnwys plant a phobl ifanc ag oedi mewn iaith a lleferydd, namau neu anhwylderau, anawsterau dysgu penodol megis dyslecsia a dyspracsia, nam ar y clyw a'r rheini sy'n dangos nodweddion o fewn y sbectrwm awtistig; gall hefyd gwmpasu rhai plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys. Bydd yr ystod o angen yn cynnwys y rheini y mae eu hanawsterau iaith a chyfathrebu'n deillio o nam synhwyraidd neu gorfforol parhaol.

- Anawsterau Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol- bydd rhai plant a phobl ifanc yn dangos nodweddion anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Efallai y byddant yn ddi-ddweud neu'n unig, yn tarfu, yn oractif neu'n dangos diffyg canolbwyntio; efallai fod ganddynt sgiliau cymdeithasol annatblygedig; neu eu bod yn dangos ymddygiad heriol.

- Synhwyraidd a/neu Gorfforol - mae'r maes angen hwn yn cynnwys y sbectrwm eang o anawsterau synhwyraidd, amlsynhwyraidd a chorfforol. Mae'r ystod synhwyraidd yn ymestyn o fyddardod dwys a pharhaol neu nam ar y golwg hyd at lefelau llai o golled, a all fod dros dro yn unig. Gall namau corfforol godi o achosion corfforol, niwrolegol neu metabolig, y mae angen mynediad priodol at gyfleusterau ac offer addysgol arnynt yn unig. Gall eraill arwain at anghenion dysgu a chymdeithasol mwy cymhleth; bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael anawsterau amlsynhwyraidd, a bydd gan rai anawsterau corfforol cysylltiedig.

I rai plant a phobl ifanc, bydd eu hangen a nodwyd yn cyd-fynd yn glir ag un o'r meysydd hyn, ond mae gan rai anghenion sy'n rhychwantu dau neu fwy o feysydd, ond i eraill efallai na fydd union natur eu hanghenion yn glir ar y dechrau. O ganlyniad, mae'n bwysig cynnal asesiad(au) unigol manwl i gael dealltwriaeth gywir o unrhyw rwystrau i ddysgu. Dylai gwella'r ddarpariaeth ac adolygu ei heffeithiolrwydd wrth sicrhau cynnydd fod yn rhan annatod o asesiad sy'n llywio dysgu ac addysgu.

Lle mae angen cymorth ychwanegol i ddatblygu arferion ysgol, mae gan bob ysgol a lleoliad yng Nghastell-nedd Port Talbot fynediad at y Cynnig Cymorth Lleol, gan yr ALl a'i bartneriaid ehangach, gan gynnwys gwasanaethau Iechyd y GIG, i gael cyngor ar nodi'n gynnar ac ystod eang o ymyriadau i fynd i'r afael ag anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Cyfeiriwch at Atodiad 3 am enghreifftiau o Ddarpariaeth Ddysgu Gynhwysol.

## Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

Ystyrir darpariaeth sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael fel arfer mewn ysgol brif ffrwd, yn Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Wrth gwrs, bydd DDdY yn gwella'r hyn sydd ar gael ar lefel gynhwysol a bydd yn adeiladu ar arferion hynod effeithiol yn y lle cyntaf.

Er mwyn cael effaith barhaus ar ddysgu, mae angen i unrhyw DDdY fod yn gysylltiedig ag addysgu dosbarth cyfan. Nid y disgybl sy'n gyfrifol am wneud y cysylltiadau rhwng cynnwys yr ymyriad a'r cwricwlwm a gwmpesir yn yr ystafell ddosbarth. O ystyried mai disgyblion ag ADY yn aml yw'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar ddysgu, mae integreiddio'r ymyriad â'r cwricwlwm prif ffrwd yn hanfodol. At hynny, bydd angen monitro effaith y DDdY o ran pa mor effeithiol y bu wrth fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg sgiliau. Mae dewis y DDdY cywir ar gyfer y plentyn a'i ADY yn hollbwysig.

Mae'n rhesymol disgwyl i ysgol ddarparu strategaethau penodol ac ymyriadau dan arweiniad oedolion i fynd i'r afael â rhwystrau nodweddiadol i ddysgu. Byddai'n gwneud bywyd yn llawer haws pe bai'n bosib rhagnodi cyfres o DDdY sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob ysgol. Fodd bynnag, mae'r realiti'n llawer mwy cymhleth na hynny gan y bydd angen i bob ysgol ddarparu'r DDdY sy'n mynd i'r afael yn benodol â'r rhwystrau i ddysgu a nodwyd ar gyfer eu plant a'u pobl ifanc eu hunain. Bydd y DDdY y mae ysgol yn ei darparu’n unigryw, yn gyd-destunol ac yn adlewyrchu anghenion ei chymuned ei hun.

Gan ddibynnu ar gyd-destun yr ysgol (maint, lleoliad, cyllideb), bydd y sbardun ar gyfer gwella DDdY yn wahanol ar gyfer pob ysgol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys newid i garfanau ysgolion presennol neu'r dyfodol; yr angen i fynd i'r afael â thanberfformiad gwahanol grwpiau ADY; mynediad at arbenigedd mewn gwahanol ffyrdd; neu benderfyniad i edrych o'r newydd ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. O ganlyniad, rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ar y cyd â'r uwch-dîm arweinyddiaeth a chefnogaeth yr ALl, fydd cadarnhau pa ddarpariaeth addysgol y mae angen ei sefydlu i gefnogi’i ddysgwyr ag ADY.

Er nad yw'n bosib dweud wrth ysgolion pa DDdY y dylid ei darparu, a faint o'r ddarpariaeth y dylid ei darparu, mae'n bosib cytuno ar safonau gofynnol. Dylai pob ysgol ddisgwyl, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf ALNET a glynu wrth ei hegwyddor sylfaenol o addysg gynhwysol, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth a fydd yn dileu rhwystrau i ddysgu.

Pan fydd ysgol yn ystyried yr angen i gynyddu ei gallu i ddarparu DDdY i ddileu rhwystrau i ddysgu, bydd ganddi fynediad at ystod o gymorth arbenigol drwy Gynnig Cymorth Lleol yr ALl a'i bartneriaid ehangach, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol.

Gweler Atodiad 3 am enghreifftiau o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol

## Rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol

**Rôl y Corff Llywodraethu**

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018) yn nodi mai'r Corff Llywodraethu sy'n bennaf gyfrifol am benderfynu a oes gan blant a phobl ifanc ADY neu beidio, a lle bo'n berthnasol, i baratoi a chynnal y CDU.

> ***Pan ddaw i sylw corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru y gall fod gan blentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol neu beidio.***
>
> ***Os bydd corff llywodraethu'n penderfynu o dan adran 11 fod gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo:***
>
> ***a) baratoi cynllun datblygu unigol ar ei gyfer oni bai fod unrhyw un o'r amgylchiadau yn is-adran (2) yn berthnasol, a***
>
> ***b) chynnal y cynllun, oni bai fod yr amgylchiadau ym mharagraff (b) neu (ch) o is-adran (2) yn berthnasol. (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018)***

Dylid cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, fel sy'n wir am y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Corff Llywodraethu, gyda'r nod o gymryd rôl strategol yn gyffredinol. Mae rôl strategol yn golygu bod y Corff Llywodraethu yn penderfynu sut yr hoffai i'r ysgol gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw a sefydlu fframwaith strategol ar gyfer gwneud i hyn ddigwydd.

Mae gan y Pennaeth ac aelodau eraill o dîm arweinyddiaeth yr ysgol gyfrifoldeb gwirioneddol dros reoli ac arwain yr ysgol, gan weithio o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Corff Llywodraethu. Mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb uniongyrchol dros arweinyddiaeth, rheolaeth a threfniadaeth fewnol yr ysgol. Mae'r Pennaeth hefyd yn cynghori ar fframwaith strategol y Corff Llywodraethu yn ogystal â'i roi ar waith.

Fel hyn, bydd y Corff Llywodraethu yn cyflawni'i gyfrifoldeb dros benderfynu a oes gan blant a phobl ifanc ADY ai peidio, drwy sefydlu fframwaith strategol i sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael ei nodi a bod DDdY yn cael ei darparu i ddiwallu'i anghenion. Bydd hyn wedyn yn cael ei amlinellu o fewn CDU. Bydd y Pennaeth a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn datblygu'r systemau a fydd yn nodi bod gan y dysgwyr hynny ADY a byddant yn rhoi DDdY ar waith yn ôl y gofyn. Fel rhan o'r ymdrech hon, bydd y Pennaeth a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn llunio CDU yr ysgol, yn datblygu Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac yn gwneud trefniadau ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu a mewnbwn arbenigol yn eu lleoliad. Bydd y Pennaeth yn adrodd wrth y Corff Llywodraethu am gynnydd y datblygiadau hyn.

**Rôl y Pennaeth**

Mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb cyffredinol dros roi diwygio ADY ar waith, gan chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sbarduno newid diwylliannol a datblygu'r cwricwlwm. Yr hyn sy'n allweddol i hyn yw cefnogi'r CADY i ymgysylltu â'r gymuned addysgu gyfan a sicrhau bod pawb yn deall bod diwygio'n ymwneud â gwella'r ysgol gyfan. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gan y CADY y grym i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol am ADY.

Mae'r Pennaeth yn hybu'r ddealltwriaeth mai'r holl athrawon a staff addysg yw addysgwyr plant a phobl ifanc ag ADY, a'r CADY yw'r unigolyn sydd, ar lefel strategol, yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu.

Rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod y CADY yn rhan o'r uwch-dîm arweinyddiaeth, neu fod ganddo linell gyfathrebu glir iddo. Bydd hyn yn cefnogi'r lleoliad addysg i gynllunio, rheoli a chyflawni'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau wrth nodi a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY.

**Rôl y CADY**

Rhaid i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru ddynodi person a fydd yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Gelwir y person hwnnw'n Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu CADY. Y CADY yw'r unigolyn sydd, ar lefel strategol, yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn cael eu nodi a'u diwallu.

Bydd angen i'r CADY ymwneud â’r gwaith o gydlynu adnoddau ADY yn strategol, megis defnyddio a chefnogi staff, cynllunio a phenderfynu ar adnoddau priodol gan gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi staff. Rhaid i'r CADY fonitro effeithiolrwydd yr holl Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol ac felly dylai fod yn rhan weithredol o benderfyniadau ynghylch cyllidebau ac adnoddau.

Ni ddisgwylir i'r CADY ymwneud yn uniongyrchol â'r broses feunyddiol o gefnogi pob dysgwr ag ADY; cyfrifoldeb yr athro dosbarth yw hwn. Mae gan yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY gyfrifoldeb dros sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u diwallu.

## Gwreiddio Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Mae ymgorffori cyfranogiad rhieni a disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth helaeth fod mwy o gyfranogiad gan rieni a disgyblion yn cael effaith ddramatig ar ddilyniant, cyrhaeddiad a chanlyniadau ehangach, yn ogystal â gwella presenoldeb ac ymddygiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc ag ADY, sydd eisoes yn ddisgyblion sy'n agored i niwed.

O ganlyniad, mae'r Côd yn nodi'n glir:

| |
|---|
| ***'Bod yn rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf, sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc unigol, roi sylw i:*** |
| ***A) farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;*** |
| ***B) pwysigrwydd y plentyn a rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosib mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth dan sylw;*** a |
| ***C) phwysigrwydd rhoi'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i'r plentyn a rhiant y plentyn neu'r person ifanc fel y gallant gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.*** |
| ***Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu'r ethos Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. ‘*** |

Mae amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i gefnogi ymarferwyr i ddefnyddio Arferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Bydd pob ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi derbyn ac yn parhau i dderbyn hyfforddiant parhaus mewn perthynas ag Ymarfer a Chanlyniadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Mae'r ALl wedi datblygu cyfoeth o offer ac adnoddau sydd ar gael i ysgolion i gyflawni eu cyfrifoldebau fel yr amlinellir yn y Côd mewn perthynas â mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yr hyn sy'n allweddol i broses benderfynu Castell-nedd Port Talbot yw rôl yr Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (gweler Dogfen 'Egwyddorion' ADY Castell-nedd Port Talbot).

## Pontio

Mae gan bartneriaid rôl hollbwysig o ran hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc a'u helpu i gyrraedd eu potensial llawn. Felly, dylent fod yn ymrwymedig i weithio mewn modd sy'n cyd-fynd â'r Egwyddorion isod:

- Cynllunio cynnar.
- Cydweithredu amlasiantaeth.
- Cyfathrebu o ansawdd da.
- Hyrwyddo cynhwysiad.

Dylai'r uchod i gyd gael eu hategu gan ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Mae'n bwysig bod pontio ar gyfnodau allweddol yn:

- Cael ei ddatblygu'n briodol ac yn adlewyrchu aeddfedrwydd, galluoedd gwybyddol, amgylchiadau cymdeithasol a phersonol, ac anghenion cyfathrebu'r plentyn a'r person ifanc;
- Nodi anghenion cyfannol y plentyn a'r person ifanc wrth iddynt symud ymlaen drwy eu haddysg a symud i'r dyfodol; a
- Bod yn ysbrydoledig o ran nodau'r plentyn a'r person ifanc yn y dyfodol a'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

Er mwyn sicrhau pontio llyfn, pan fydd plentyn neu berson ifanc ar gam hanfodol yn ei addysg, dylai'r corff perthnasol sydd â chyfrifoldebau dros baratoi, ystyried a chynnal CDUau gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn ymhell ymlaen llaw. Gall Tîm Cynhwysiad Castell-nedd Port Talbot gynnig cymorth a chyngor i ysgolion a rhieni/gofalwyr mewn perthynas â hwyluso pontio allweddol i blant a phobl ifanc ag ADY. At hynny, bydd Dogfen Bontio ranbarthol ar gael i bob ysgol a phartner, i helpu i gynllunio proses bontio dda ar gyfer pob dysgwr a’i rhoi ar waith.

Dylid ystyried Plant sy'n Derbyn Gofal wrth reoli prosesau pontio, ar y cyd â'r Cydlynydd Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

## Atodiad 1 – Cynnig Cymorth Ymgynghorol y Gwasanaeth Cynhwysiad

expectations
document final amen(

## Atodiad 2 – Dewislen Hyfforddiant Cynhwysiad Castell-nedd Port Talbot

App 2 NPT Inclusion
Service Training Prog

## Atodiad 3 – Darpariaeth Ddysgu Gynhwysol a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

**Enghreifftiau o Ddarpariaeth Ddysgu Gynhwysol (DDdG) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)**

### 1. Gwybyddiaeth a Dysgu

| DDdG | DDdY |
|---|---|
| • Proffil Un Dudalen sy'n amlinellu'r ffordd orau o gefnogi'r plentyn/person ifanc (PPI).<br><br>• Dysgu ac addysgu gwahaniaethol effeithiol e.e. addasu lefel yr iaith a ddefnyddir a lleihau neu estyn tasgau.<br><br>• Cynllun ffisegol yr ystafell ddosbarth i ddiwallu anghenion dysgu pob PPI e.e. ardal amlsynhwyraidd ddynodedig.<br><br>• Rhaglenni dal i fyny tymor byr (llythrennedd a rhifedd) e.e. Ffoneg Garlam; Darllen Carlam; Mathemateg Carlam; Read, Write, Inc.<br><br>• Addasu'r ffordd y caiff yr addysgu ei gyflwyno i fodloni'r dull dysgu a ffefrir gan y PPI. A yw'r disgybl yn dysgu'n well gan ddefnyddio dull gweledol, clywedol neu ginesthetig? Gellir defnyddio adnoddau fel Mynegai Aston i helpu i bennu hyn.<br><br>• Defnyddio adnoddau priodol i gefnogi cyfleoedd dysgu e.e. numicon, ciwbiau amlgyswllt, llinellau rhif, banciau geiriau, gwirwyr sillafu, troshaenau, meddalwedd cyfrifiadurol/rhaglenni TG. | • Rhaglenni ymyriad penodol tymor hir a gyflwynir naill ai un i un neu mewn grŵp bach (llythrennedd a rhifedd).<br><br>• Cymorth un i un neu grŵp bach gan athro a/neu gynorthwy-ydd addysgu ar gyfer y tasgau dysgu y mae angen canolbwyntio arnynt fwyaf.<br><br>• Rhoi strategaethau penodol wedi'u targedu ar waith fel yr argymhellwyd gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol e.e. seicolegydd addysgol, ymarferydd lles, athro ymgynghorol. |

| | |
|---|---|
| • Mynediad at ddyfeisiau recordio i gefnogi cof e.e. defnyddio iPad neu Ddictaffon<br><br>• Addysgu/monitro manwl<br><br>• Cymhorthion gweledol i gefnogi cof a dealltwriaeth o'r dasg a osodwyd.<br><br>• Cymorth ar gyfer sgiliau dilyniannu a chynllunio tasgau<br><br>• Athrawon yn gwirio'n amlach fod y deunydd yn cael ei ddeall.<br><br>• Cyfleoedd i athrawon a/neu gynorthwywyr addysgu gefnogi disgyblion mewn grŵp bach.<br><br>• Caniatáu amser meddwl ychwanegol i gefnogi'r dysgwr i brosesu'r wybodaeth a ddarperir.<br><br>• Defnyddio ymagweddau ysgol gyfan at fetawybyddiaeth e.e. Adeiladu Grym Dysgu.<br><br>• Defnyddio partneriaid siarad/cyfeillion dysgu.<br><br>• Systemau gwobrwyo priodol.<br><br>• Darllen dan arweiniad.<br><br>• Defnydd effeithiol o asesiadau yn y dosbarth fel MIST neu Phonic Rocket, a fydd yn pennu meysydd dysgu y bydd angen cymorth arnynt ar eu cyfer.<br><br>• Ymgynghori a chyngor ar lefel A a B drwy Gynnig Cymorth Lleol y Gwasanaeth Cynhwysiad. | |

2. **Cyfathrebu a Rhyngweithio**

| DDdG | DDdY |
|---|---|
| • Proffil Un Dudalen sy'n amlinellu'r ffordd orau o gefnogi'r PPI<br><br>• Dysgu ac addysgu gwahaniaethol effeithiol e.e. addasu lefel yr iaith a ddefnyddir a lleihau neu estyn tasgau.<br><br>• Cynllun ffisegol yr ystafell ddosbarth i ddiwallu anghenion dysgu pob PPI e.e. ardal amlsynhwyraidd ddynodedig; cynlluniau eistedd; gweithfan unigol.<br><br>• Defnyddio amserlenni gweledol i gefnogi PPI e.e. NAWR a NESAF; unigol a/neu ddosbarth.<br><br>• Rhaglenni tymor byr ac offer sgrinio e.e. SMART Moves; Sensory circuits; Movers & Creators; Wellcomm; Language Link; POPAT; Spiral; ELKLAN.<br><br>• Addasu'r ffordd y caiff yr addysgu ei gyflwyno i fodloni'r dull dysgu a ffefrir gan y PPI. Defnyddiwch iaith benodol glir, gan ddefnyddio enwau’r PPI cyn rhoi cyfarwyddiadau. Rhowch ddewisiadau sydd dan eich rheolaeth chi, gan gyfyngu'r rhain i ddau.<br><br>• Geirfa cyn-addysgu sy'n benodol i bwnc | • Rhaglenni ymyriad penodol tymor hir a ddarperir naill ai un i un neu mewn grŵp bach.<br><br>• Cymorth un i un neu mewn grŵp bach gan athro a/neu gynorthwy-ydd addysgu e.e. Cynorthwy-ydd Cefnogi Llythrennedd Emosiynol Talkabout; RBP; Rhyngweithio Dwys; Straeon Cymdeithasol.<br><br>• Rhoi dulliau cyfathrebu wedi'u targedu ar waith e.e. System Gyfathrebu drwy Gyfnewid Lluniau; Canu ar y cyd; Cyfathrebu Amgen a Chynyddol.<br><br>• Rhoi strategaethau penodol wedi’u targedu ar waith, fel yr argymhellwyd gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol e.e. seicolegydd addysgol, ymarferydd lles, athro ymgynghorol. |

| | |
|---|---|
| • Sicrhau strwythur a threfn glir a chyson yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys cefnogi PPI gyda phontio.<br><br>• Defnyddio adnoddau priodol i gefnogi cyfleoedd dysgu e.e. amseryddion.<br><br>• Systemau gwobrwyo priodol.<br><br>• Cyfleoedd i athrawon a/neu gynorthwywyr addysgu gefnogi disgyblion mewn grŵp bach. | |

## 3. Anghenion Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol

| DDdG | DDdY |
|---|---|
| • Proffil Un Dudalen sy'n amlinellu'r ffordd orau o gefnogi'r PPI.<br><br>• Dysgu ac addysgu gwahaniaethol effeithiol e.e. addasu lefel yr iaith a ddefnyddir; lleihau neu estyn tasgau; amserlen wahaniaethol.<br><br>• Cynllun ffisegol yr ystafell ddosbarth i ddiwallu anghenion dysgu pob PPI e.e. ardal amlsynhwyraidd ddynodedig; cynlluniau eistedd; gweithfan unigol; mynediad i le diogel.<br><br>• Defnyddio amserlenni gweledol i gefnogi PPI e.e. NAWR a NESAF; unigol a/neu ddosbarth.<br><br>• Rhaglenni tymor byr ac offer sgrinio e.e. SMART Moves; Cylchedau synhwyraidd; Movers & Creators; Chwarae sy'n seiliedig ar berthynas Clwb LEGO.<br><br>• Ymagweddau perthynol cyson i hyrwyddo cysylltiad e.e. hyfforddiant emosiynau; cwrdd a chyfarch; sesiynau cylch dyddiol; mynediad at oedolyn sy'n rhoi cefnogaeth emosiynol.<br><br>• Addasu'r ffordd y caiff yr addysgu ei ddarparu i fodloni'r dull dysgu a ffefrir gan y PPI. Defnyddiwch iaith benodol glir, gan ddefnyddio enwau'r PPI cyn rhoi cyfarwyddiadau. Rhowch ddewisiadau sydd dan eich | • Rhaglenni ymyriad penodol tymor hir a gyflwynir naill ai un i un neu mewn grŵp bach e.e. rhaglenni ffocws therapiwtig (nid therapi) ysgrifennu stori/celf; rhaglenni synhwyraidd.<br><br>• Cymorth un i un neu grŵp bach gan athro a/neu gynorthwy-ydd addysgu e.e. Cynorthwy-ydd Cefnogi Llythrennedd Emosiynol Talkabout; RBP; Rhyngweithio Dwys; Straeon cymdeithasol; TeenTalk; Grŵp anogaeth.<br><br>• Defnyddio offer/rhaglenni wedi'u targedu e.e. Teodorescu; seddau arbenigol (fel y cynghorir gan Iechyd); Thrive; Motional; Boxall; Rhestr Wirio Ymlyniad.<br><br>• Rhoi strategaethau penodol wedi'u targedu ar waith fel yr argymhellwyd gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol e.e. seicolegydd addysgol, ymarferydd lles, athro ymgynghorol.<br><br>• Ehangu'r ddarpariaeth cyfleoedd dysgu amgen e.e. dysgu yn yr awyr agored/ysgol goedwig; hyfforddiant galwedigaethol; amserlen wahaniaethol. |

| | |
|---|---|
| rheolaeth chi, gan gyfyngu'r rhain i ddau.<br><br>• Darparu cyfleoedd dysgu amgen e.e. dysgu yn yr awyr agored/ ysgol goedwig; Hyfforddiant galwedigaethol.<br><br>• Strwythur a threfn glir a chyson yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys cefnogi PPI gyda phontio.<br><br>• Defnyddio adnoddau priodol i gefnogi cyfleoedd dysgu e.e. amseryddion; teganau bys a bawd; teganau synhwyraidd; apiau lles emosiynol; blwch pryder.<br><br>• Systemau gwobrwyo priodol e.e. llyfr cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol sy'n seiliedig ar gryfderau;<br><br>• Cyfleoedd i'r athro a/neu'r cynorthwy-ydd addysgu gefnogi disgyblion mewn grŵp bach. | |

## 4. Anghenion Synhwyraidd/Corfforol

| DDdG | DDdY |
|---|---|
| **Nam ar y Golwg:**<br><br>• Proffil Un Dudalen sy'n amlinellu'r ffordd orau o gefnogi'r PPI.<br><br>• Cau cysgodlenni er mwyn osgoi llewyrch ar fyrddau gwyn/arddangosfeydd.<br><br>• Cadw byrddau gwyn yn lân, pinnau bwrdd gwyn newydd/llachar.<br><br>• Athrawon i ysgrifennu'n glir ar y bwrdd, gan leisio'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu.<br><br>• Diffodd goleuadau wrth edrych ar y sgrîn.<br><br>• Sicrhau bod disgyblion yn eistedd mewn lleoliad addas yn y dosbarth/ar gynlluniau eistedd – yn y blaen/yn y canol neu ar ochr ddewisol.<br><br>• Defnyddio print clir, trwm, mor fawr ag y gallwch sydd wedi'i gyferbynnu'n dda, e.e. Ffont Comic Sans/Arial, ar gyfer arddangosfeydd, labeli a chyflwyniadau.<br><br>• Ystyriwch ffont maint 18 fel y maint argraffu gorau posib a ffont maint 12 fel y maint lleiaf ar gyfer taflenni/taflenni gwaith | **Nam ar y Golwg**<br><br>• Mewnbwn parhaus a rheolaidd gan y tîm Nam ar y Golwg.<br><br>• Darparu Proffil Golwg sydd wedi'i ysgrifennu gyda chymorth y tîm Nam ar y Golwg.<br><br>• Addasiadau i'r amgylchedd dysgu fel celfi llachar/canllawiau a labelu/arddangosfeydd cyffyrddol/Braille.<br><br>• Darparu cynorthwy-ydd addysgu sydd wedi'i hyfforddi mewn braille.<br><br>• Addasu adnoddau argraffu fel eu bod ar ffurf Braille.<br><br>• Hyfforddiant Braille.<br><br>• Darpariaeth teipio cyffwrdd neu lwybrau byr bysellfwrdd.<br><br>• Tiwtora cyn ac ar ôl.<br><br>• Rhaglenni Sgiliau Gweledol.<br><br>• Eitemau pwrpasol o dechnoleg gynorthwyol, fel yr argymhellir yn dilyn asesiad unigol gan y tîm Nam ar y Golwg e.e. chwyddwyr fideo/ meddalwedd lleferydd.<br><br>• Darparu adnoddau cyffyrddol a chymorth i'w defnyddio.<br><br>• Ysgrifennydd i gofnodi gwaith bwrdd/cymorth rhannu sgrîn. |

| | |
|---|---|
| wedi'u hargraffu.<br><br>• Caniatewch i'r PPI gael ei gopi ei hun o'r testun.<br><br>• Defnyddio technoleg gynorthwyol e.e. iPad neu Chromebook.<br><br>• Peidiwch â lleihau taflenni o faint A4 i A5.<br><br>• Peidiwch ag ehangu taflenni o A4 i A3 i gael print mwy gan y bydd hyn yn effeithio ar yr eglurder.<br><br>• Darparwch bapur graff â phrint trwm a llinellau print trwm i ysgrifennu arnynt.<br><br>Darparwch binnau yn lle pensiliau.<br><br>**<u>Nam ar y Clyw</u>**<br><br>• Mae'r tîm Nam ar y Clyw yn monitro ar sail rheolaidd a pharhaus i gynnig cyngor a strategaethau i ddiwallu anghenion y disgybl, yn unol â chanlyniadau Meini Prawf Cymhwysedd NATSIP<br><br>• Proffil Un Dudalen sy'n amlinellu'r ffordd orau o gefnogi'r PPI.<br><br>• Sicrhewch ei fod yn eistedd i ffwrdd o unrhyw offer electronig sy'n cael ei ddefnyddio. Yn gyffredinol, mae offer electronig yn swnllyd.<br><br>• Safle eistedd priodol, yn y blaen ac yn wynebu'r seinydd. | • Hyfforddiant a chymorth gyda sgiliau defnyddio ffon gerdded.<br><br>• Hyfforddiant a chefnogaeth gydag hunangymorth ac annibyniaeth.<br><br>• Hyfforddiant a chymorth i alluogi rhyngweithio cymdeithasol.<br><br>• Darparu gwrthrychau cyfeirio.<br><br>• Darparu canllaw golwg hyfforddedig os oes angen.<br><br>• Neilltuo amser i gynorthwy-ydd addysgu gynllunio ac addasu adnoddau dysgu.<br><br>• Consesiynau arholiadau gwell e.e. Ysgrifennydd neu ddarllenydd.<br><br>**<u>Nam ar y Clyw</u>**<br><br>• Mae'r tîm Nam ar y Clyw yn monitro'n barhaus ac yn rheolaidd i gynnig cyngor a strategaethau i ddiwallu anghenion y disgybl, sy'n cyfateb â chanlyniadau Meini Prawf Cymhwysedd NATSIP.<br><br>• Mae Athro Cymwysedig y Byddar (ACyB) yn cynnal asesiadau perthnasol sy'n gysylltiedig â chlywed/gwrando, pan fo angen.<br><br>• Darperir Proffil Clyw sydd wedi'i ysgrifennu gan yr ACyB mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid perthnasol.<br><br>• Mae'r tîm Nam ar y Clyw yn cefnogi staff i reoli seinchwyddo bob dydd.<br><br>• Mae'r tîm Nam ar y Clyw yn cysylltu ag Awdioleg a gweithwyr proffesiynol eraill.<br><br>• Mae'r tîm Nam ar y Clyw yn cynnal ymyriad uniongyrchol gyda'r PPI yn ôl y |

| | |
|---|---|
| • Cadw draw o ffenestri/olau haul uniongyrchol pan yn cyfathrebu â'r plentyn (i osgoi cysgod dros eich wyneb).<br><br>• Rhaglenni ac offer sgrinio tymor byr e.e. asesiad clyw yn yr ysgol, Wellcomm; Language Link; Speech Link; POPAT<br><br>• Diffoddwch yr offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio e.e. bwrdd gwyn rhyngweithiol.<br><br>• Ceisiwch leihau sŵn allanol drwy gau drysau a ffenestri.<br><br>• Bydd defnyddio traed rwber ar gadeiriau yn lleihau sŵn.<br><br>• Dylid ailadrodd/ysgrifennu geiriau, cyfarwyddiadau a gwaith cartref allweddol ar y sgrîn/bwrdd.<br><br>• Osgowch newidiadau sydyn o ran pynciau gan y gall hyn fod yn ddryslyd i PPI sydd â nam ar y clyw.<br><br>• Sicrhewch fod holl negeseuon allweddol y wers yn cael eu hailadrodd a bod y disgybl yn deall y dasg a osodwyd.<br><br>• Rhowch gyfarwyddiadau clir ar gyflymder priodol fel bod y PPI yn gallu prosesu'r wybodaeth a roddwyd.<br><br>• Sicrhewch fod cymhorthion gweledol yn cael eu defnyddio'n briodol. | gofyn.<br><br>• Tiwtora cyn ac ar ôl .<br><br>• Eitemau pwrpasol o dechnoleg gynorthwyol, fel yr argymhellir yn dilyn asesiad unigol gan y tîm Nam ar y Golwg e.e. cymhorthion radio.<br><br>• Trefniadau mynediad ar gyfer asesiadau ffurfiol e.e. amser ychwanegol, seinydd byw ar gyfer arholiadau gwrando, papurau wedi'u haddasu o ran iaith. Bydd hyn yn wahanol i bob unigolyn.<br><br>**<u>Synhwyraidd a/neu Gorfforol</u>**<br><br>• Ymyriad parhaus fel yr argymhellir gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol e.e. seicolegydd addysgol, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, paediatregydd, nyrs arbenigol.<br><br>• Cyngor parhaus a mewnbwn uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol perthnasol e.e. therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, paediatregydd, nyrs arbenigol.<br><br>• Darnau pwrpasol o offer arbenigol fel yr argymhellir gan weithwyr proffesiynol priodol e.e. therapydd galwedigaethol neu ffisiotherapydd.<br><br>• Ymyriadau atmosfferaidd a Tacpac.<br><br>• Deiet synhwyraidd. |

| | |
|---|---|
| • Mae recordiadau'n well na theledu byw gan y gellir eu hailddirwyn a'u hailchwarae os yw pwynt wedi'i gamddeall neu ei gamddeall.<br><br>• Wrth ddangos cyfryngau electronig gweledol e.e. DVDs mewn ystafell dywyll, gwnewch yn siŵr bod eich wyneb wedi'i oleuo cyn siarad, a defnyddiwch isdeitlau, lle bo hynny'n briodol.<br><br>• Mae'n anodd dilyn recordiadau sain, heb allu darllen gwefusau. Darparwch drawsgrifiad/defnyddiwch seinydd byw.<br><br>• Trefniadau mynediad ar gyfer asesiadau anffurfiol e.e. ystafell dawel. Bydd hyn yn wahanol i bob unigolyn.<br><br>• Trefniadau mynediad ar gyfer asesiadau anffurfiol a ffurfiol e.e. amser ychwanegol, ystafell dawel, seinydd byw ar gyfer arholiadau gwrando. Bydd hyn yn wahanol i bob unigolyn.<br><br>**Synhwyraidd a Chorfforol**<br><br>• Proffil Un Dudalen sy'n amlinellu'r ffordd orau o gefnogi'r PPI.<br><br>• Cynllun ffisegol yr ystafell ddosbarth i ddiwallu anghenion dysgu PPI ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol. | |

| | |
|---|---|
| • Ymyriadau tymor byr e.e. Smart Moves; Teoderescu Write from the Start; Ymarfer y Bysedd.<br>• Defnyddio cardiau amser i feddwl a'r opsiwn i adael yr ystafell ddosbarth yn gynnar er mwyn osgoi gorlwytho synhwyraidd drwy gydol y diwrnod ysgol.<br>• Defnyddio amddiffynwyr clust; gemwaith y gellir ei gnoi; teganau bys a bawd; pebyll synhwyraidd.<br>• Cylchedau synhwyraidd.<br>• Seibiannau symud rheolaidd.<br>• Parthau Rheoleiddio.<br>• Troshaenau lliw, lletemau sedd, desgiau ar oleddf, gafaelion pin.<br>• Defnyddio technoleg gynorthwyol i gofnodi gwaith. | |